**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Adroddiad y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau**

**Y Mesur Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Mesur uchod am y tro cyntaf yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth 2006. Cyfeiriwyd y Mesur at y Pwyllgor yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad ar 21 Mehefin 2005. Codwyd nifer o bryderon gan yr Aelodau a gofynnwyd am gyfle i drafod y Mesur ymhellach pan fyddai gwybodaeth ychwanegol wedi dod i law am y berthynas rhwng Mesur Llywodraeth Cymru a'r Mesur Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol.

Ar 3 Mai, cafwyd ail drafodaeth ar y Mesur a darparwyd papur gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau yn ymateb i bryderon y Pwyllgor.

Yr hyn a oedd yn peri'r pryder mwyaf i'r Pwyllgor oedd y ffaith bod y Mesur wedi'i ddrafftio ar sail y sefyllfa gyfansoddiadol gyfredol yng Nghymru, a hynny heb gymryd i ystyriaeth ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Cymru sydd ar ei ffordd drwy Senedd San Steffan ar hyn o bryd.

Ar ôl y cyfarfod, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Seneddol gan dynnu sylw at bryderon y Pwyllgor ac amgáu copïau o bapur y Gweinidog a'r cofnod gair-am-air o'r trafodaethau ar 16 Mawrth a 3 Mai.

Anfonwyd copïau o'r llythyr hefyd at Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, ac at holl aelodau Cymru yn Nhy'r Arglwyddi.

**Chris Gwyther AC**
**Cadeirydd, y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau**